CANLLAWIAU DYLUNIO: TAI NEWYDD

DATBLYGIAD STÂD: GOSODIAD **R14**

Mae stâd o ddyluniadau tai safonol wedi'i lleoli ar hyd ffordd fawr safonol, gyda'i goleuadau stryd a phalmentydd arferol, yn erydu cymeriad pentrefi'r Parc. Dylai stadau newydd adlewyrchu cymeriad unigryw bob pentref, yn eu gosodiad, triniaeth o ffyrdd, terfynau, llwybrau a goleuadau. Efallai mai dim ond gyda ffyrdd a llefydd agored preifat, heb eu "mabwysiadu" fyddai hyn yn bosibl.





Dylid amrywio dyluniad mynedfeydd preifat ac osgoi gormod o darmac

Dylid lleihau maint a nifer y colofnau golau.
Dylid eu lleoli ar hyd llwybrau troed (wedi'u dangos gan)

Waliau gerddi cerrig.
Dim agoriadau dreif rheolaidd

Tai mwy i'w lleoli ar gyrion y pentref.
Lleoliad a gerddi afreolaidd

Dylid osgoi coridor o dai wedi'u lleoli ar hyd "llinell adeiladu".
Dylid codi rhai tai ar ymyl y llwybr troed

Ffordd stâd yn gul mewn mannau i dorri lawr ar gyflymdra traffig

Gosodiad cul-de-sac yn creu teimlad o gymuned

Waliau cerrig ar ymyl y ffordd fawr

Dylai prif ffenestri tai sy'n wynebu ei gilydd fod 21m o leiaf ar wahân

Dylai ffenestri ystafell fyw a gerddi gael haul yn ystod y dydd

Llwybr troed anffurfiol i ysgogi cyswllt cymdeithasol.
Dylid lleoli tai ar gyfer yr henoed ar lwybrau prysur

Dylai rhesi tai barhau ffryntiad strydoedd y pentref



10/2000